



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 18 Hydref 2018 am 10.30 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd M Norris Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr S Gale, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio
Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth -Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mrs. J Allen, Head Of Attendance And Wellbeing Service

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd S Bradwick

62 YMDDIHEURIAD

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R Lewis.

63 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

64 DEILLIANNAU'R CYFNOD SYLFAEN A CHYFNOD ALLWEDDOL 2 A 3 A DEILLIANNAU ARFAETHEDIG CYFNOD ALLWEDDOL 4 AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2017-18

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg a Dysgu Gydol Oes fanylion i'r Aelodau am y canlyniadau addysgol dros dro ar gyfer

blwyddyn academaidd 2017 - 2018 ar gyfer Rhondda Cynon Taf.

Cafodd yr aelodau eu hysbysu bod canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen yn Rhondda Cynon Taf wedi cwmpo yn ystod 2017/2018- ond cafodd y data yma hefyd ei adlewyrchu mewn cyfresi data cenedlaethol, gan ychwanegu bod y cwmp mewn canlyniadau lleol a chenedlaethol yn y Blynyddoedd Cynnar yn debyg o fod yn gysylltiedig â'r gwaith o unioni datganiadau o ddisgwyliad o fewn Meysydd Dysgu, sy'n fwy heriol i'w cyflawni erbyn hyn.

Wrth drafod canlyniadau Cyfnod Allweddol 2, nododd y Cyfarwyddwr fod cwmp bychan wedi'i nodi yn ystod 2017/18, ond bod y canlyniadau ar gyfer Dangosyddion Pwnc Craidd ar y lefel uchaf ond un ers 2013, sy'n awgrymu bod y cyflawniadau yn parhau ar lefel uchel ar 89.24%. Yng Nghyfnod Allweddol 3, cafodd cynnydd ei wneud mewn perthynas â'r rhan fwyaf o ddangosyddion, ond roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac eithrio'r dangosyddion ar gyfer Saesneg, a oedd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y data yn dal i awgrymu bod cynnydd cyson wedi'i wneud ar y rhan fwyaf o'r mesuriadau cyflawniad yng Nghyfnod Allweddol 3.

Daeth y Cyfarwyddwr â'i chyflwyniad i ben drwy roi gwybod am y dystiolaeth o'r cynnydd o ran canlyniadau Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2+ yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ystod 2017/18. Roedd y rhain yn galonogol iawn. Cafodd yr aelodau wybod bod y canlyniadau rhwng A* a C mewn Saesneg a Mathemateg yn dangos cynnydd yn y flwyddyn academaidd yma, ac y byddai canlyniadau Gwyddoniaeth yn cael budd o welliannau pellach.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes sylw ar yr adroddiad, gan ychwanegu y byddai rhagor o waith ymchwilio ac ymyriad yn digwydd mewn ysgolion sy'n peri pryder. Nod hyn fydd sichau bod modd ailsefydlu'r patrwm blaenorol o welliannau cynyddol.

Aeth yr Aelod o'r Cabinet ymlaen i ychwanegu y dylai tloedi ac amddifadedd gael eu hystyried yn ffactorau sy'n amharu ar ganlyniadau addysgol, er eu bod nhw ddim yn esgus dros dangyflawni addysgol, ac felly, y dylai'r cyflawniad gael ei farnu ar sail y gwerth ychwanegol ar ben yr hyn sy'n ddisgwyliedig. Cafodd yr aelodau eu hysbysu y byddai data wedi'i ddilysu ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet unwaith eto yn y flwyddyn newydd.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.
2. Parhau â lefel y cymorth sydd wedi'i ddarparu ar gyfer ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2018-19.
3. Y caiff gwybodaeth fanwl am ddata Cyfnod Allweddol 4 ym mhob ysgol unigol ei chyflwyno i'r Cabinet unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno data terfynol, sydd wedi'i ddilysu.

Gwasanaethau Llywodraethol y newyddion diweddaraf am strategaeth Mynychu'r Ysgol 2018-2021 yn dilyn gwaith cyn-craffu gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2018.

Cafodd yr aelodau wybod am sylwadau'r pwyllgor craffu mewn perthynas â

- Cyllid ar gyfer 3^{edd} blwyddyn y strategaeth
- Cydnabod cyflawniadau'r disgyblion hynny sy'n wynebu rhwystrau o ran mynychu'r ysgol
- Blaenoraeth 5 - Cadw Llygad ar Driwanta ac Ardaloedd Dim Triwanta - Prydeon ynglŷn ag ardaloedd Dim Triwanta
- Ymgysylltu â Llywodraethwyr Ysgolion a disgyblion - i'w gynnal.

Gwnaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant sylwadau am yr adborth a ddaeth gan y Pwyllgor Craffu a'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r strategaeth ar ôl iddi hi gael ei chyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes i'r Pwyllgor Craffu a thrafodd y pryderon perthnasol a gafodd eu nodi gan y pwyllgor. Ychwanegodd hi yn byddai angen rheoli Ardal Dim Triwanta yn ofalus a soniodd am y posibilrwydd o gynnal cynllun peilot i gychwyn arni. Yn ogystal â hynny, awgrymodd Aelod o'r Cabinet bod modd bwrw ymlaen â'r gwaith o ymgynghori â Chymdeithas Llywodraethwyr RhCT ynglŷn â'r strategaeth. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am bwysigrwydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu gofynnol sy'n helpu plant i fynychu'r ysgol pan maen nhw'n wynebu amgylchiadau anodd.

Holodd yr Arweinydd sut y caiff teuluoedd eu hatgyfeirio i'r rhaglen teuluoedd cydnerth, ac os oedd hyn yn cael ei wneud. Atebodd y Cyfarwyddwr y cwestiwn yma, gan nodi bod elfen bwysig o'r rhaglen yn ymwneud â'r gwasanaeth Mynediad a Lles, a nodi'r dull cydweithredol a gaiff ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Atgyfnerthodd y Dirprwy Arweinydd yr awgrym y dylai'r cynngor gynnal cynllun peilot o'r Ardal Dim Triwanta i gychwyn arni, a siaradodd yn gadarnhaol am y strategaeth.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi sylwadau ac arsylwadau'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc, sydd wedi'u hatodi yn Atodiad A yr adroddiad yma.
2. Cefnogi'r argymhellion sydd wedi'u hamlinellu yn Strategaeth Mynychu'r Ysgol ar gyfer 2018-2021 "Colli'r Ysgol, Colli Allan", yn amodol ar gynllun peilot yr Ardaloedd Dim Triwanta a gwaith ymgystlltu ehangach â Chymdeithas Llywodraethwyr RhCT ynglŷn â'r strategaeth.
3. Cymeradwyo'r Strategaeth Mynychu'r Ysgol ddrafft.

66

DEDDF RHEOLI LLIFOGYDD A DWR 2010: DECHRAU ATODLEN 3 - DRAINIO CYNALIADWY AR 07.01.19

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Priffyrdd a Gofal y Strydoedd ei adroddiad i'w aelodau, a oedd yn rhoi gwybod iddyn nhw bod atodlen 3 'Drainio Cynaliadwy' o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 wedi dod i rym drwy Lywodraeth Cymru ar 1 Mai 2018 a'r gofyniad deddfwriaethol i'r Cyngor

ddarparu gwasanaeth newydd o 7 Ionawr 2019.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y manylion am Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i waith drainio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd i gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer systemau Drainio Cynaliadwy. Mae gofyn hefyd i'r systemau drainio dŵr wyneb gael eu cymeradwyo gan Gorff Cymeradwyo SuDS cn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Er bod y rhain yn ofynion cyfreithiol ar gyfer y Cyngor, cafodd yr aelodau wybod y byddai'r buddion ychwanegol yn cynnwys bod modd i'r cyngor fod yn gyfrifol am gymeradwyo gwaith drainio dŵr wyneb, lleihau'r risg o ddatblygu mewn mannau sydd â pherygl risg uchel a lleihau'r posibilrwydd y bydd llifogydd yn digwydd yn y datblygiadau newydd a'r cymunedau ehangach. Yn ogystal â hynny, cafodd y cyfleoedd pellach i fanteisio i'r eithaf ar ansawdd y dŵr wyneb sy'n gysylltiedig â datblygiadau a bioamrywiaeth y datblygiadau newydd eu nodi hefyd.

Soniodd yr Arweinydd am safle cadarnhaol y Cyngor mewn perthynas â rhoi gofynion y Ddeddf ar waith, a hynny o ganlyniad i'r darpariaethau sydd eisoes ar waith ledled y Fwrdeistref Sirol. Cyfeiriodd hefyd at y buddsoddiadau o fewn y garfan rheoli perygl llifogydd a'r gwaith a gafodd ei gyflawni er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol ddim yn effeithio ar y Cyngor, o ran llifogydd, yn y dyfodol.

Soniodd y Dirprwy Arweinydd am y cynllun atal llifogydd a blaenwelediad y Cyngor o fewn y cynllun, sy'n achub bywydau a chartrefi trigolion y Fwrdeistref Sirol.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi bod atodlen 3 'Drainio Cynaliadwy' o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 wedi dod i rym drwy Lywodraeth Cymru ar 1 Mai 2018 a'r gofyniad deddfwriaethol i'r Cyngor ddarparu gwasanaeth newydd o 7 Ionawr 2019.
2. Cymeradwyo'r gwaith o sefydlu'r cynllun a'r strwythur sydd wedi'i amlinellu yn adran 7.2 yr adroddiad.
3. Cymeradwyo'r gwaith o lunio polisi'r Cyngor ar daliadau diamod, fel sydd wedi'u hamlinellu rhwng 7.1.5 a 7.1.9 yn yr adroddiad.
4. Cymeradwyo'r gwaith o lunio polisi ar gostau safonol ar gyfer mabwysiadu seilwaith System Drainio Cynaliadwy fel sydd wedi'i amlinellu yn 7.1.10 o'r adroddiad.

67 GWASANAETH ADNODDAU DYNOL Y CYNGOR

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol ei adroddiad sy'n rhoi trosolwg i'r aelodau o weithgarwch yr adran dros y deuddeg mis diwethaf. Rhoddodd y Cyfarwyddwr drosolwg o waith y Carfanau Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant, Iechyd a Diogelwch, Datblygu Pobl, Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Lluoedd Arfog, Iechyd a Lles a Chysylltiadau â Gweithwyr.

Cafodd yr Aelodau fanylion am gynlluniau prentisiaeth a graddedigion

llwyddiannus y Cyngor, yn ogystal â'r rhaglen Rhaglen GofaliWaith. Soniodd e hefyd am y cyrsiau hyfforddiant a gaiff ei ddarparu i staff ac Aelodau Etholedig.

Yn ogystal â hynny, cafodd yr Aelodau fanylion am gyflwyno gwybodaeth o'r Dangosfwrdd Salwch i'r Uwch Garfan Arwain a gwybodaeth am y gwaith gyda Chyfamod y Lluoedd Arfog.

Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd ganmoliaeth i waith yr adran a soniodd hi am y gwobrau mae'r Cyngor wedi'u hennill mewn perthynas â chyfamod y lluoedd arfog, y wobr genedlaethol ar gyfer y Cynllun Prentisiaeth. Soniodd hi hefyd fod gwybodaeth am salwch ac absenoldebau yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.

68

RHYBUDD O GYNNIG - WARDEN EIRA

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol adroddiad ac argymhellion y Gweithgor Craffu i'r Aelodau. Roedd hyn yn dilyn Rhybudd o Gynnig a gafodd ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi mewn perthynas â Wardeiniaid Eira.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gweithgor wedi'i benodi er mwyn ystyried y cynnig i benodi Wardeiniaid Eira gwirfoddol yn y Fwrdeistref Sirol a'r angen i gyflymu trafodaeth y grŵp o ganlyniad i'r mater dan sylw.

Cafodd yr aelodau wybod am y trafodaethau yng nghyfarfod y gweithgor, a ddaeth ynghyd ar 9 Hydref, a'r argymhellion dilynol.

Trafododd y Cynghorydd Bradwick yr eitem yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Cadeirydd y Gweithgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweithgor am eu hargymhellion a'r angen i sicrhau bod y Cyngor yn helpu trigolion i fod yn fwy cydnerth yn ystod tywydd garw a manteisio ar ewyllys da eu cymdogion. Croesawodd e'r argymhellion mewn perthynas â llinellau cyfathrebu a'r angen am gyfathrebu cynnar ag Aelodau a thrigolion. Mynegodd y Cadeirydd ei bryderon ynglŷn â rhoi polisi cyffredinol ar waith a'r risg a allai effeithio ar drigolion os ydyn nhw'n gweithio ar eu pen eu hunain yn ystod tywydd garw iawn. Yn ogystal a hynny, ychwanegodd y byddai e'n ystyried dod ag un o gerbydau aradr eira bach y Cyngor ar y safle cyn y cyfarfod nesaf ar y 24^{ain}, a hynny er budd yr holl aelodau.

Yn ogystal â hynny, diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r gweithgor am ymchwilio i'r mater mewn cyfnod byr, a chroesawodd hi argymhellion y gweithgor. Soniodd y Dirprwy Arweinydd am y llinellau cyfathrebu, a soniodd hi fod cyfathrebu â Chynghorau Tref a Chymunedau hefyd yn fater pwysig iawn.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo argymhellion y Gweithgor Craffu fel sydd wedi'u hamlinellu isod, yn amodol ar rai newidiadau bychain:-

- i. Bod y rhif ffôn arbennig ar gyfer Aelodau Etholedig yn cael ei ddefnyddio er mwyn rhoi cymorth a chyngor i'r holl Aelodau Etholedig yn ystod cyfnodau o dywydd garw;
 - ii. Caiff ymgyrch benodol ei rhoi ar waith i hybu cymunedau i ddod ynghyd i helpu ei gilydd yn wirfoddol yn ystod tywydd eithafol, yn ogystal ag annog trigolion i ddod yn 'gymdogion da';
 - iii. Y caiff canllawiau priodol ac ymarferol, ac ymarfer da mewn perthynas â gweithredu yn y gymuned mewn tywydd garw eu rhannu â thrigolion Rhondda Cynon Taf drwy wefan y Cyngor (GOV UK - Canllawiau ar Weithredu yn y Gymuned mewn Tywydd Garw); ac
 - iv. Y caiff gwaith pellach ei gyflawni mewn perthynas ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer gwaith gwirfoddol sy'n cael ei gynnal mewn modd diogel.
2. Bod cerbydau aradr eira bach yn cael eu cludo ar y safle fel bod modd i'r holl Aelodau eu gweld nhw cyn y cyfarfod ym mis Hydref.

69 YMGYNGHORI AR Y GYLLIDEB

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol fanylion i'r Aelodau ynglŷn â'r broses ymgynghori ar y gyllideb arfaethedig ar gyfer Blwyddyn 2019/20 y Cyngor, mewn perthynas ag ymgysylltu â'r cyhoedd. Cafodd Aelodau wybod bod y broses sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad yn rhoi cyfle i drigolion, drwy amryw dulliau, i roi adborth i'r Cabinet ar y broses pennu'r gyllideb ar gyfer 2019/20.

Soniodd yr Arweinydd am yr opsiynau ymgysylltu gwahanol a gafodd eu nodi yn yr adroddiad, gan sôn am y twf yn y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, a'r angen i'r Cyngor i barhau i ddefnyddio hyn fel dull ymgysylltu gwerthfawr. Cyfeiriodd at ganlyniadau Barnett o ran pennu cyllideb Llywodraeth y DU a'r pwysau mae'r Awdurdodau yn eu hwynebu.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd hefyd at achlysuron ymgynghori canol y trefi a'r cyfle i siarad â thrigolion yn uniongyrchol am y broses pennu'r gyllideb.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi llwyddiant dulliau'r llynedd o fynd ati ynglŷn ag ymgynghori ar y gyllideb.
2. Cymeradwyo'r dull arfaethedig o ran ymgynghori ar y gyllideb a fyddai'n cynnwys:
 - Defnyddio efelychydd cyllideb
 - Achlysuron yng nghanol trefi a chymunedau
 - Achlysur ymgynghori â phobl ifainc
 - Ymgynghori â Grwpiau Pobl Hŷn
 - Achlysur y Cabinet – Ymgysylltu â'r Cyhoedd
 - Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ymgysylltiad ac i gael adborth

3. Nodi y bydd y cyfnod ymgynghori yn para am 6 wythnos rhwng 5 Tachwedd a 17 Tachwedd 2018.
4. Nodi bydd gofynion statudol y Cyngor parthed ymgynghori ar y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor a lefelau Treth y Cyngor yn cael eu bodloni trwy'r dull arfaethedig.
5. Rhoi cyfarwyddyd i Bennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol i roi gwybod i Gadeiryddion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgor Materion Cyllid a Chyflawniad am y dull o fynd ati a pharhau ag un cam didor.
6. Bod manylion ynglŷn â'r ymgynghoriad ar y gyllideb a chyfleoedd ymgysylltu ar gael ar wefan y Cyngor.

70 RHESTR O ENWAU LLEOEDD SAFONOL CYMRU

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol drosolwg i'r Aelodau o'r adroddiad o'u blaen, wedi iddo gael ei ystyried yn Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar 10 Hydref 2018 a'r cyfarfod dilynol gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar 12 Hydref.

Cafodd yr Aelodau wybod bod y Grŵp Llywio wedi ystyried yr argymhellion a gafodd eu cyflwyno gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â mabwysiadu enwau lleoedd sy'n berthnasol ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Er bod y Grŵp Llywio'n cydnabod gwaith y Panel Safoni Enwau Lleoedd, roedd e o'r farn bod angen ymgynghori â chymunedau lleol ynglŷn â newid enwau unrhyw leoedd yn Rhondda Cynon Taf. Yn ogystal â hyn, achubodd y Cyfarwyddwr ar y cyfle i sôn am gyfarfod rhwng swyddogion â'r Comisiynydd, a groesawodd y cyfle i weithio gyda'r Awdurdod ar y mater.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ynglŷn â'r adroddiad ac argymhelliad y Grŵp Llywio i ymgynghori â'r trigolion a fydd yn cael eu heffeithio gan hyn.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a gafodd ei ystyried gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar 10 Hydref 2018 (wedi'i atodi yn Atodiad 1) a'r diweddariad llafar dilynol gan Bennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol yn dilyn y cyfarfod gyda'r Comisiynydd ar 12 Hydref 2018;
2. O ran argymhellion Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, sydd wedi'u nodi rhwng pwynt 2.2.1 a 2.2.2 yr adroddiad ac sydd wedi'i amlinellu isod:
 - a) Bod y Cabinet yn ceisio caniatâd ysgrifenedig gan Gomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â'r rhesymeg dros wneud y newidiadau sydd wedi'u hamlinellu yn y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru, a hynny er mwyn llywio penderfyniadau'r Cabinet yn y dyfodol yn well.
 - b) Bod ymgynghoriadau'n cael eu cynnal gyda'r holl gymunedau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad a bod rhesymeg Comisiynydd y Gymraeg ac unrhyw wybodaeth bellach sydd wedi'i chasglu drwy sesiynau ymgysylltu â'r Comisiynydd yn cael eu defnyddio yn rhan o'r broses yma. Nes y caiff

penderfyniad ei wneud ynglŷn â hyn, bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r enwau lleoedd sydd wedi'u nodi yn Rhestr Tir ac Eiddo Lleol Rhondda Cynon Taf.

71 **Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad**

PENDERFYNWYD: "Bod y cyfarfod yma'n cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf".

72 **ARDAL CYFLE STRATEGOL PONTYPRIDD: GWEITHREDU**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cynllunio grynodedb o'i adroddiad i'r Aelodau, a oedd yn cynnwys gwybodaeth a oedd wedi'i heithrio, ac a oedd yn amlinellu'r cyfle i ennill tri safle strategol sydd eisoes wedi'u nodi yn fannau i'w hailddatblygu o fewn ardal cyfle strategol Canol Tref Pontypridd. Mae hyn yn amodol ar y gwerth gorau a phroses diwydrwydd dyladwy gynhwysfawr.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Awdurdodi Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor i feddiannu'r tri safle strategol yma (sydd eisoes wedi'u nodi yn fannau i'w hailddatblygu o fewn ardal cyfle strategol Canol Tref Pontypridd) yn seiliedig ar delerau sydd i'w cytuno ac yn amodol ar waith cwblhau achosion busnes a chymeradwyo cyllid hanfodol, a hynny mewn ymgynghoriad â'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu Menter a Thai a'r Aelod o'r Cabinet ar Wasanaethau Corfforaethol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 am

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**